# Cymhwyso egwyddorion craidd peirianneg ar y tir – offer a chyfarpar

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cymhwyso egwyddorion craidd peirianneg ar y tir – offer a chyfarpar. Mae'n cynnwys adnabod, dewis, cynnal a chadw a defnydd diogel o offer llaw, offer pŵer, a chyfarpar gweithdy sefydlog a symudol a'r cyfarpar diogelu personol (PPE) sy'n ofynnol i gwblhau gweithgareddau a wneir mewn peirianneg ar y tir.

Wrth weithio gyda pheiriannau neu gyfarpar dylech fod wedi eich hyfforddi ac yn meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Wrth weithio ar gerbydau trydan foltedd uchel (foltedd peryglus/HaV) mae'n rhaid i'r dadrymuso gael ei wneud gan berson sydd wedi cael hyfforddiant priodol yn unol â gweithdrefnau'r cynhyrchydd.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sy'n gweithio ym maes peirianneg ar y tir o dan oruchwyliaeth.

Noder – yn unol â rheoliadau cyfredol mae'n rhaid i waith trydan o'r prif gyflenwad gael ei wneud gan berson cymwys, trydanwr fel arfer.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. bod yn ymwybodol o'r peryglon a'r risgiau sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd a'r lleoliad lle mae i fod cael ei wneud
2. bod yn ymwybodol o'r effaith amgylcheddol posibl sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd a'r ffyrdd y gellid rheoli hyn
3. dewis a gwisgo dillad addas a chyfarpar diogelu personol (PPE)
4. cymhwyso egwyddorion peirianneg ar y tir a defnyddio'r offer llaw, yr offer pŵer, cyfarpar sefydlog a symudol cywir i wneud y gweithgaredd gofynnol
5. archwilio offer llaw, offer pŵer, cyfarpar sefydlog a symudol i sefydlu eu cyflwr
6. paratoi'r offer a'r cyfarpar trwy gynnal gwiriadau a gweithredoedd cyn eu defnyddio yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol, cyfarwyddiadau'r cynhyrchydd ac arferion cwmni
7. nodi'r ffynhonnell bŵer gywir sydd yn angenrheidiol ar gyfer offer a chyfarpar pŵer
8. dewis a defnyddio'r cyfarpar gofynnol i godi, cefnogi a sefydlogi peiriannau tra bod y gweithgaredd yn cael ei gwblhau
9. dewis a defnyddio cyfarpar perthnasol i wneud y tasgau mesur gofynnol
10. defnyddio'r offer a'r technegau gofynnol i gefnogi clampio, cywasgu a thynnu cydrannau a chydosodiadau
11. dewis a defnyddio offer arbennig pan fo angen
12. cynnal a chadw offer a chyfarpar mewn cyflwr diogel a gweithredol yn unol â chyfarwyddiadau a manylebau
13. archwilio a chynnal a chadw cyfarpar PPE i gadarnhau ei fod mewn cyflwr gweithredol
14. archwilio cyfarpar codi i gadarnhau ei fod mewn cyflwr gweithredol yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol
15. ailwefru pecynnau pŵer offer cludadwy yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchydd
16. gadael y gweithle mewn cyflwr diogel ar ôl cwblhau'r gweithgaredd
17. storio offer a chyfarpar, yn cynnwys PPE, yn ddiogel yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchydd ac arferion y cwmni
18. ymdrin â'r mathau gwahanol o wastraff, yn cynnwys gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus, a achoswyd gan y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau a gofynion cyfreithiol ac amgylcheddol perthnasol

19. cwblhau cofnodion fel y bo angen yn unol â chyfarwyddiadau'r cwmni

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y peryglon a'r risgiau sydd yn gysylltiedig â pheirianneg ar y tir
2. y math o ddillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
3. yr amrywiaeth o offer llaw, offer pŵer, cyfarpar sefydlog a symudol sydd ar gael i wneud gweithgareddau mewn peirianneg ar y tir a sut i ddewis yr offer neu'r cyfarpar cywir ar gyfer y gweithgaredd
4. y technegau sydd yn ofynnol i baratoi a defnyddio offer llaw, offer pŵer, cyfarpar sefydlog a symudol yn ddiogel
5. y ddeddfwriaeth sydd yn gysylltiedig â pharatoi a defnyddio cyfarpar gwaith (PUWER)
6. y ddeddfwriaeth sydd yn gysylltiedig â defnyddio a phrofi cyfarpar codi (LOLER)
7. sut i adnabod ffynonellau pŵer gwahanol ar gyfer offer pŵer
8. sut i ynysu cyfarpar trydanol y prif gyflenwad
9. sut i ddefnyddio cyfarpar i godi, cefnogi a sefydlogi peiriannau tra bod gweithgaredd gofynnol yn cael ei gwblhau
10. sut i dorri ac adfer edau, tynnu stydiau sydd wedi torri a symud gosodiadau sydd wedi cloi
11. y technegau a ddefnyddir i glampio, dal a sefydlogi deunyddiau a chydrannau tra bod tasgau peirianneg yn cael eu cyflawni
12. sut i nodi pan fydd offer arbennig yn ofynnol a'r amrywiaeth o offer arbennig sydd ar gael
13. y gofynion cynnal a chadw ar gyfer offer llaw, offer pŵer, cyfarpar sefydlog a symudol
14. pwysigrwydd archwilio a chynnal PPE i gadarnhau ei fod mewn cyflwr gweithredol
15. sut i wefru pecynnau pŵer offer symudol
16. pwysigrwydd gadael y gweithle mewn cyflwr diogel ar ôl cwblhau'r gweithgaredd
17. y ffordd y dylid storio offer, cyfarpar a PPE
18. sut i ymdrin â'r mathau gwahanol o wastraff, yn cynnwys gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus, a achoswyd gan y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau a gofynion cyfreithiol ac amgylcheddol perthnasol
19. yr effaith bosibl y gallai eich gweithgaredd ei gael ar yr amgylchedd a'r ffyrdd y

gellir rheoli hyn

20. y cofnodion sydd angen eu cwblhau a gweithdrefn y cwmni ar gyfer hyn

## Geirfa

cyfarpar sefydlog a symudol - e.e. gweisg, llifiau peiriannol, jaciau, stondinau echel, gwefrwyr batris, cywasgwyr aer, dynamofesurydd neu brofwyr chwistrellu

offer llaw - e.e. rhathellau, cynion, tyllwyr, tynwyr, tapiau a deiau, darnau dril, ehangwyr, clampiau, sbaneri, socedi tyndroadau, tyrnsgriwiau, gefeiliau, torwyr a chyllellodau, cyfarpar mesur a nodi, mesuryddion ac echdynwyr

**cyfarwyddiadau a manylebau:**

- lluniau/cynlluniau
- amserlenni
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP)
- Cyfarwyddiadau'r cynhyrchydd
- Gofynion cwsmeriaid
- cyfarwyddiadau llafar

cyfarpar codi - e.e. jaciau, craeniau peiriannau, llwyfannau codi, offer cynnal nenbontydd - e.e. hogi, storio, glanhau, llyfnhau

cyfarpar mesur - e.e. dangosydd prawf digidol, caliperau fernier, microfesurydd, mesuryddion teimlo, thermomedr, tacomedr, amlfesurydd, dynamofesurydd, tyndro trorym hydrofesurydd a mesuryddion ymwrthedd rholio

cyflenwadau pŵer - e.e. cyfnod unigol, 3 chyfnod, pecynnau pŵer symudol, aer cywasgedig

offer pŵer – yn cynnwys offer trydanol ac aer e.e. driliau, melinau malu, offer aer, gynnau gwres

cyfarpar diogelu - e.e. masgiau, gogls, sgriniau, masgiau gorchudd wyneb

offer arbennig - e.e. tynwyr, gweisg, amddiffynwyr sêl, stydiau canllaw, doliau lleoli a chanoli, rheiliau a throlïau rhannu

tasgau - e.e. torri, llifio, ffurfio, mesur, nodi, gosod, symud, profi, dal, drilio, codi, torri edau ac echdynnu stydiau

offer a thechnegau - e.e. stondinau, clampiau, feisiau, tynwyr, morthwylion llithro, gweisg, cywasgwyr sbring

LANLEO5

Cymhwyso egwyddorion craidd peirianneg ar y tir – offer a chyfarpar

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANLEO5 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Peirianneg ar y tir |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Peirianneg ar y Tir |
| **Geiriau Allweddol** | peirianneg; egwyddorion; offer; cyfarpar; ar y tir |